**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**
**Bridgend County Borough Council**

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND County Borough Council

*Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich dewis iaith.*
*We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.*

**Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr / Chief Executive's Directorate**
Deialu uniongyrchol / Direct line /: 01656 643148 / 643147 / 643694
Gofynnwch am / Ask for:

Ein cyf / Our ref:
Eich cyf / Your ref:

**Dyddiad/Date:** Dydd Iau, 16 Gorffennaf 2020

Annwyl Cynghorydd,

**CYNGOR**

Cynhelir Cyfarfod  Cyngor o bell trwy Skype ar **Dydd Mercher, 22 Gorffennaf 2020** am **15:00**.

**AGENDA**

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb
   Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aelodau.

2. Datganiadau o fuddiant
   Derbyn datganiadau o ddiddordeb personol a rhagfarnol (os o gwbl) gan Aelodau / Swyddogion yn unol â darpariaethau'r Cod Ymddygiad Aelodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor o 1 Medi 2008.

3. Cymeradwyaeth Cofnodion — 5 - 26
   I dderbyn am gymeradwyaeth y Cofnodion cyfarfod y 26/02/20 a 11/03/20

4. I dderbyn cyhoeddiadau oddi wrth y Maer

5. I dderbyn cyhoeddiadau oddi wrth yr Arweinydd

6. Diweddariad ar Ymateb Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i Covid-19 — 27 - 32

7. Canlyniad y Rhaglen Gyfalaf 2019-20 ac Adroddiad Diweddaru Chwarter 1 2020-21 — 33 - 58

8. Adroddiad Gwybodaeth i'w Nodi — 59 - 64

9. I dderbyn y cwestiynau canlynol gan:

**Ffôn/Tel: 01656 643643** **Facs/Fax: 01656 668126** **Ebost/Email: talktous@bridgend.gov.uk**
**Negeseuon SMS/ SMS Messaging: 07581 157014** **Twitter@bridgendCBC** **Gwefan/Website: www.bridgend.gov.uk**
**Cyfnewid testun: Rhowch 18001 o flaen unrhyw un o'n rhifau ffon ar gyfer y gwasanaeth trosglwyddo testun**
**Text relay: Put 18001 before any of our phone numbers for the text relay service**
**Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Rhowch wybod i ni os yw eich dewis iaith yw'r Gymraeg**
**We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh**

**Cynghorydd MC Voisey i'r Dirprwy Arweinydd**

Faint o achosion llys, (dirwyon, gorchmynion atafaelu enillion ac ati) a'r defnydd o feilïaid a ddefnyddiwyd gan CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn adennill y dreth gyngor sydd heb ei thalu, a faint a adenillwyd drwy gamau o'r fath?

**Cynghorydd A Hussain i'r Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar**

Mae tystiolaeth wedi dod i'r amlwg yn ystod y Pandemig fod COVID – 19 wedi effeithio'n anghymesur ar weithwyr iechyd proffesiynol o gefndiroedd ethnig.

A wnaiff yr Aelod Cabinet roi sicrwydd i ni fod pob gweithiwr iechyd proffesiynol sy'n gweithio yn Awdurdod Iechyd Cwm Taf Morgannwg gan gynnwys ein Cartrefi Gofal wedi cael eu hasesiadau risg fel rhagofal, gan gynnwys eu hethnigrwydd fel ffactor risg, ynghyd ag oedran, pwysau, problemau iechyd sylfaenol, anabledd a beichiogrwydd, a beth ydym ni wedi'i ddysgu?

10. Hysbysiad o Gynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd R Young

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cydnabod y dystiolaeth wyddonol ysgubol o newid ym mhatrymau'r tywydd fel y dangoswyd gan y glaw a'r llifogydd digyffelyb a welwyd yn ddiweddar, yn lleol a thrwy'r DU gyfan hefyd, ac mae o'r farn fod hyn yn dystiolaeth bellach i gynhesu byd-eang, ac felly'n credu'n bendant fod argyfwng hinsawdd yn bodoli erbyn hyn, ac oherwydd hynny'n galw ar Lywodraethau'r Deyrnas Unedig a Chymru i ddarparu'r canlynol ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr:

a. y pwerau a'r adnoddau angenrheidiol i wneud Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn niwtral o ran carbon

b. lefelau o adnoddau ar raddfa i ymateb i'r heriau a wynebir a phrosesau ar gyfer cael gafael ar yr adnoddau hynny fydd yn ei gwneud yn bosibl gweithredu ar y cyfle cyntaf

i) Sefydlu mecanweithiau ymgysylltu priodol er mwyn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol

ii) Ymgymryd ag adolygiad ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o'r camau presennol ar gyfer ymateb i argyfwng yn yr hinsawdd

iii) Datblygu Strategaeth Ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd a chynllun gweithredu wedi ei flaenoriaethu sy'n esbonio camau sydd i'w cymryd yn y tymor byr, canolig a hir.

11. Materion Brys

I ystyried unrhyw eitemau o fusnes y, oherwydd amgylchiadau arbennig y cadeirydd o'r farn y dylid eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol â Rhan 4 (pharagraff 4) o'r Rheolau Trefn y Cyngor yn y Cyfansoddiad.

Yn ddiffuant
**K Watson**
Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio

Nodyn: Sylwch: Yn sgil yr angen i gadw pellter cymdeithasol, ni fydd y cyfarfod hwn yn cael ei gynnal yn ei leoliad arferol. Yn hytrach, bydd hwn yn gyfarfod rhithwir a bydd Aelodau'r Cyngor a Swyddogion yn mynychu o bell. Bydd y cyfarfod yn cael ei recordio i'w ddarlledu ar wefan y Cyngor ar ol i'r cyfarfod orffen. Os oes gennych unrhyw gwestiwn am hyn, cysylltwch â cabinet_committee@bridgend.gov.uk neu ffoniwch 01656 643147 / 643148.

**Dosbarthiad:**

Cynghowrwyr
S Aspey
SE Baldwin
TH Beedle
JPD Blundell
NA Burnett
MC Clarke
N Clarke
RJ Collins
HJ David
P Davies
PA Davies
SK Dendy
DK Edwards
J Gebbie
T Giffard
RM Granville
CA Green
DG Howells

Cynghorwyr
A Hussain
RM James
B Jones
M Jones
MJ Kearn
DRW Lewis
JE Lewis
JR McCarthy
D Patel
RL Penhale-Thomas
AA Pucella
JC Radcliffe
KL Rowlands
B Sedgebeer
RMI Shaw
CE Smith
SG Smith
JC Spanswick

Cynghorwyr
RME Stirman
G Thomas
T Thomas
JH Tildesley MBE
E Venables
SR Vidal
MC Voisey
LM Walters
KJ Watts
CA Webster
DBF White
PJ White
A Williams
AJ Williams
HM Williams
JE Williams
RE Young